Bwletin Awdurdod S4C
Cyfarfod 325 – 17 Medi 2009
S4C, Caerdydd

Mae'r bwletin hwn yn adrodd ar gyfarfod yr Awdurdod a gynhaliwyd ar 17 Medi 2009.

1. Materion yn codi o gofnodion cyfarfod 324
Derbyniwyd cofnodion cyfarfod 324.

2. Adroddiad y Cadeirydd

Roedd y Cadeirydd, ynghyd â sawl aelod a swyddogion wedi mynychu Noson Gwylwyr S4C yng Nghaerfyrddin. Roedd yn noson lwyddiannus, a diolchodd i'r Aelodau a swyddogion a fynychodd. Cyfeiriodd at gyflwyniad yn esbonio'r trosglwyddiad i ddigidol a sut i ail-diwnio, gan nodi fod y gynulleidfa wedi gwerthfawrogi'r cyflwyniad yn fawr.

3. Adroddiad y Prif Weithredwr
Cyflwynodd IJ ei hadroddiad.

Nododd IJ bod y broses o ddiffodd gwasanaeth analog S4C wedi cychwyn ar 9 Medi ym Mynydd Cilfái, a bod S4C Digidol hefyd wedi symud i blethiad newydd ledled Cymru ar yr un diwrnod. Roedd angen i wylwyr Freeview yng Nghymru ail-diwnio er mwyn parhau i dderbyn S4C Digidol.

Diolchodd y Cadeirydd i staff S4C am eu holl waith a'u hymroddiad yn ystod yr wythnos ddiweddaf. Roedd yn ymwybodol bod staff S4C wedi bod yn darparu llawer o gymorth i wylwyr oedd angen cymorth gydag ail-diwnio.

Cyfeiriodd IJ at ddau gyhoeddiad gan Lywodraeth y Cynulliad. Nododd hefyd am benodiad Ian Hargreaves i arwain adolygiad o'r diwydiannau creadigol yng Nghymru a'r ymateb i Bwyllgor Cymunedau a Diwylliant.

4. Materion Eraill
Yn ogystal, trafodwyd/nodwyd y materion canlynol:

- Adroddiad y Cyfarwyddwr Cyllid
- Adroddiad y Cyfarwyddwr Comisiynu
- Adroddiad a Chyflwyniad Ymchwil
- Adroddiadau Cwynion a Chydymffurfiaeth
- Cod Ymarfer – Bwrdd wedi cymeradwyo fersiwn ddiwygiedig
- Cofrestr Rhoddion – cyflwyno canllawiau pellach. Cymeradwyo.